# Llywodraeth Cymru

# Datgan Parth Rheoli Dros Dro Firws y Tafod Glas ger Tyndyrn, Sir Fynwy (BTD 2025/157)

## Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008([1]) – Rheoliad 10(1), (3) a (4) a 28

## Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 ([2]) – Erthygl 5

1) Yn unol â rheoliad 10(1), (3) a (4) o Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (“Rheoliadau 2008”), mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod yr ardal a ddisgrifir yn Atodiad 1 yn Barth Rheoli Dros Dro.

2) Yn ogystal, gan fod Gweinidogion Cymru yn amau bod Feirws y Tafod Glas yn bodoli, mae Gweinidogion Cymru yn datgan bod yr ardal a nodir yn Atodiad 1 yn Ardal Reoli Dros Dro yn unol ag erthygl 5 o Orchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 ("Gorchymyn 2003") y cyfeirir ato yma wedi hyn fel 'Parth Rheoli Dros Dro'.

3) Mae’r Parth Rheoli Dros Dro wedi'i farcio ar y map yn Atodiad 1.

4) Mae'r mesurau a nodir yn Atodiad 2 yn gymwys i'r Parth Rheoli Dros Dro.

5) Mae'r mesurau hyn yn gymwys o 6pm ar 1 Hydref 2025 hyd nes y bydd y Datganiad hwn yn cael ei dynnu'n ôl neu ei ddiwygio drwy ddatganiad ysgrifenedig pellach.

Amser a Dyddiad a wnaed: 18:00 ar 1 Hydref 2025

Llofnodwyd: Dr Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

---

([1]) Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 O.S.2008/1090 (Cy.116) fel y'u diwygiwyd.
([2]) Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 O.S. 2003/399 (Cy.56), fel y'i diwygiwyd.


Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad datganiad a wneir o dan Reoliadau 2008 yn cyflawni trosedd a gall fod yn atebol os ceir euogfarn ddiannod i ddirwy lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu i'r ddau (yn rhinwedd rheoliad 25 o Reoliadau 2008).

Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad datganiad a wneir o dan Orchymyn 2003 yn euog o drosedd a gall fod yn atebol os ceir euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i'r ddau (yn rhinwedd adran 72 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981).

Mae copïau o'r Datganiad hwn i'w gweld ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ. Mae Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 i'w gweld yma. Mae Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 i'w weld yma. Mae Gorchymyn Clefydau Egsotig (Cymhwyso a Diwygio Deddfiadau) (Cymru) 2024, a wnaeth ddiwygiadau i Reoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 a Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 ar 23 Medi 2024, i'w weld yma.

**Atodiad 1 - Map yn dangos y Parth Rheoli Dros Dro**

## Bluetongue Serotype 3
## Temporary Control Zone
## Near Tintern, Monmouthshire
## 01 October 2025





Animal & Plant Health Agency
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000815687

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000815687


0 3 6 Kilometers

Created By: NDCC GIS
On: 01/10/2025 Scale - 1:139,867 at A4

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Atodiad 2 – Parth Rheoli Dros Dro**

*Mae'r Parth Rheoli Dros Dro yn cyfeirio at y rhannau hynny o Gymru sydd wedi'u cynnwys o fewn yr ardal â llinell goch o'i chwmpas ar y map yn Atodiad 1*.

**Mesurau yn y Parth Rheoli Dros Dro**

1. Mae'r mesurau a nodir yn rheoliad 10(4) o Reoliadau 2008 yn gymwys. Mewn perthynas â'r Parth Rheoli Dros Dro, ni chaiff neb symud unrhyw anifail neu gynnyrch eginol i'r parth nac ohono ac eithrio yn unol â thrwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol neu gan un o arolygwyr neu swyddogion Gweinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

2. Yn unol ag erthygl 5(5) o Orchymyn 2003, ni chaiff neb rewi unrhyw gynnyrch eginol, sef embryo, ofwm, neu semen anifail sy'n cnoi cil neu gamelid, sydd wedi'i leoli yn y Parth Rheoli Dros Dro a ddatganwyd o dan erthygl 5 o Orchymyn 2003 oni bai bod y cynnyrch eginol wedi'i rewi ar fangre a ddynodwyd o dan reoliad 14A o Reoliadau 2008 neu fel arall yn unol â thelerau trwydded a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

**Hysbysiad**

3. Yn unol â rheoliad 28 o Reoliadau 2008, ac fel rhanddirymiad o'r mesurau a nodir yn rheoliad 10(4) o Reoliadau 2008 ac a gymhwysir yn y Parth Rheoli Dros Dro fel y nodir ym mhwynt 1 uchod, caiff person symud gwartheg godro o'r lleoliad lle cânt eu cadw i'r parlwr godro ar gyfer godro a'u dychwelyd yn uniongyrchol i'r tarddle. Bydd y symudiad ar droed i'r man godro rheolaidd a ddefnyddir ar gyfer y fuches hon ac oddi yno.

Nodiadau:

1. Ystyr “Rheoliadau 2008” yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)[3].

2. Rheoliad 10(4) o Reoliadau 2008: Pan fo Parth Rheoli Dros Dro wedi'i sefydlu, ni chaiff neb symud unrhyw anifail neu gynnyrch eginol i'r parth nac ohono ac eithrio yn unol â thrwydded a roddir gan arolygydd milfeddygol neu gan un o arolygwyr neu swyddogion Gweinidogion Cymru sy'n gweithredu o dan gyfarwyddiadau arolygydd milfeddygol.

[3] O.S. 2008/1090 (Cy.116), fel y'i diwygiwyd.

3. Rheoliad 7(1) o Reoliadau 2008: Ymdrinnir â mangre sy'n rhannol oddi mewn i barth rheoli dros dro ac nad yw oddi mewn i unrhyw barth arall fel mangre sydd oddi mewn i'r parth rheoli dros dro.

4. Rheoliad 2(1) o Reoliadau 2008:

   a. ystyr “anifail” yw anifail sy’n cnoi cil, neu gamelid.
   b. ystyr “cynnyrch eginol” (“*germinal product*”) yw embryo, ofwm neu semen anifail.

5. "Gorchymyn 2003" yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd)[4].

[4]O.S. 2003/399 (Cy. 117) fel y'i diwygiwyd.